

Llawlyfr i weithwyr allweddol mewn
Ileoliadau blynyddoedd cynnar
adeg trosglwyddo plant.

“It is easier to build strong children than to repair broken men”

(Frederick Douglass, 1817-1895)

(Rowland, 2014)

“We worry about what a child will become tomorrow, yet we forget
that he is someone today.”

(Neighbor, 2013)

Cynhwysiad**Rhif Tudalen**

1. Cyflwyniad	3
2. Sut i ddefnyddio y llawlyfr	6
3. Rôl yr oedolyn	8
4. Anghenion y plentyn	10
5. Partneriaethau	14
6. Ymyriadau	16
7. Deilliannau arfaethedig	18
8. Rhestr gyfeiriadau	19

Cyflwyniad

Pwrrpas y llawlyfr yma ydy i rhoi arweiniad i ymarferydd y dosbarth Meithrin i ddefnyddio er mwyn drosglwyddo plant yn bositif o gylch Meithrin, meithrinfeydd preifat neu o'i cartrefi i fewn i Feithrin yr ysgol.

Nutbrown a Page (2008, dyfynnwyd yn Allingham, 2012, tud.11)

'Transitions have to happen in life, and young children experience many transitions in their first few years. But it is the practitioner's responsibility to really tune into the needs of the children and to take their cues from them.'

Wrth ymchwilio i fewn i'r ymchwil yma gallwn weld mae prif ffocws y trosglwyddo ydy i ganolbwyntio ar lles y plentyn. Sicrhau fod y plentyn yn teimlo yn gartrefol ac yn gyffyrddus yn yr amgylchedd cyn canolbwyntio ar unrhyw beth arall, er mwyn gwneud hyn rhaid fod y staff ar rhieni yn teimlo yn gyfforddus hefyd am y sefyllfa sydd o'n flaenau nhw. Pan mae'r oedolyn yn teimlo yn gartrefol mae hyn yn helpu y plentyn i deimlo yn llai bryderus. Mae newid mewn bywyd yn effeithio pawb yn wahanol.


Mae trosglwyddo yn rhan o fywydau plant ac oedolion yn ddyddiol. Mae gwahanol fath o drosglwyddo i'w gael yn digwydd ar wahanol adegau ac mae gwahanol rhesymau tu ôl i'r trosglwyddo yma. Gall fod symud tŷ, dechrau swydd newydd neu

symud i ardal gwahanol. Ond gall newidiaeth bach deimlo fel newidiaeth enfawr yn enwedig i blant. Newidiaeth i drefn y dydd yn y dosbarth yn gallu achosi pryder i rhai blant felly dyma ble fyddai trefn y dydd gweledol yn effeithiol. Gall newidiaeth bach cael ei chwyddlunio ac os nad yw y trosglwyddo yn cael ei wneud yn gywir gall achosi difrod enfawr tymor byr a hir. Fel y dywedai Montessori fod oedolion gyda y modd i gofio lleoliad ac i fwynhau a edmygu y lleoliad. Y mae y ffordd y mae y plentyn yn gweld y lleoliad yn wahanol maent yn amsugno yr hyn a welwyd. Mae'r byd yn ymwneud gyda yr hyn a welwyd a chlywyd. Wrth anelu at drosglwyddo positif mae'r amgylchedd yn gwneud y byd o wahaniaeth. (Sure start, no date)

Yn ôl Bronfenbrenner Brooker (2008) mae pob sefyllfa yn wahanol, gall fod y plentyn yn trosglwyddo o wahanol cefndiroedd boed cartref, meithrinfeydd, Mamgu a Thad-cu. Defnyddiodd Bronfenbrenner y term 'microsystem', mae hyn yn disgrifio unigolyn, grŵp, a sefydliad sydd yn dylanwadu ar ddatblygiad y plentyn. 'Microsystem' ydy amgylchedd a pherthnasoedd uniongyrchol y plentyn. Maent yn dadlau wrth gyfuno bywydau unigrwydd y plentyn gyda yr athrawon, galwyd hyn yn 'mesosystem'. Maen bwysig i rhannu gwybodaeth ac i sgwrsio un i un gyda'r rhiant/gofalwr boed yn yr ysgol neu mewn ymweliad cartref. Dywedai Bronfenbrenner fod hyn yn hybu ac yn helpu y

plentyn i wneud trosglwyddiad positif ac yn fwy debygol o wneud trosglwyddiad llwyddiannus yn y dyfodol.

Dyma lun yn dangos 5 gwahanol lefelau y mae yr amgylchedd yn effeithio ar dynol byw sef microsystem, mesosystem, exosystem, macrosystem a chronosystem.



(Source: Study of the mind, 2015)

Sut i ddefnyddio y llawlyfr

Dywedai Llywodraeth Cymru (2015) fod angen sefydliadau i sicrhau fod pob plentyn yn cael dechreuad da er mwyn tyfu ac i gael ddatblygiad da i'r dyfodol.

Maen bwysig iawn fod staff y meithrin yn defnyddio y llawlyfr yma yn effeithiol wrth hybu ei dealltwriaeth i drosglwyddo y plentyn. Pwrpas y llawlyfr yma ydy i anelu at blant sydd yn trosglwyddo o'r cartref, cylch meithrin a meithrinfeydd. Felly yn anelu at plant 3 mlwydd oed, ac mi fydd y trosglwyddo yn digwydd yn y tymor y fyddant yn troi yn 3.

E.e. os ydy y plentyn yn cael ei phenblwyddi yn Nhymor yr Haf byddant yn dechrau yn y Meithrin y mis Medi sydd yn dilyn.

Wrth ddefnyddio y llawlyfr maen bwysig fod y staff yn cymryd ei amser i ddod i adnabod y pwysigrwydd o drosglwyddo yn bositif ac taw lles y plentyn sydd angen pwysleisio arno yn bennaf. Yn llyfr Y cyfnod sylfaen 3-7 oed (2010) mae yna 7 nod craidd ar gyfer y plant yma. Y 7 nod craidd yma i ddilyn a datganiad llywodraeth cynulliad cymru ydy i anelu at sicrhau fod y plant yma—

- Yn cael dechreuad da, y gorau posibl.
- Yn cael cyfleoedd eang o addysg, hyfforddiant a dysgu.
- Yn cael mwynhad iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol.
- Yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwaraeon.
- Yn cael gwrandawriad.
- Yn cael cartref diogel
- Heb fod dan anfantais.

Wrth wneud yn siŵr fod hyn yn gweladwy i'r plant yn y meithrinfa mi fydd yn gwneud y plentyn i deimlo mor ddiogel a fyddai'n

bosibl. Mae gan yr ymarferydd cyfrifoldeb i wneud y sefydliad mor apelgar ag y gallent i anelu at anghenion unigryw y plentyn wrth gynllunio o flaen llaw.

Rôl yr ymarferydd

Rôl bennaf y oedolyn ydy i sicrhau fod y plentyn yn teimlo yn gefnogol. Pan yn paratoi y plentyn i ddechrau yn yr ysgol maen bwysig iawn i gofio mae y prif pwyntiau ydy i ddatblygu hunanbarch ac i fod yn hyderus ac nid i asesu sgiliau academig. Os nad ydy'r plentyn yn teimlo yn hyderus yn yr ysgol nid ydyw mynd i ddatblygu yn academiaidd. Mae i deimlo yn anhysbys yn mynd i bryderu y plant. Cyn dechrau yn Meithrin yr ysgol mi fydd angen i un or gweithwyr fynd i ymweld a chylch meithrin a meithrinfeydd ble mae'r plant yma yn trosglwyddo er mwyn rhannu gwybodaeth bwysig am y plentyn. Ydy y plentyn yn nerfus? hyderus? dawel? Mae'r gwybodaeth yma yn hynod o bwysig i ddod i adnabod y plentyn. (Gloucestershire 2020).

Fe awn ymlaen i gynnig sesiynau 'laith a chwarae' yn yr ysgol am un awr, unwaith yr wythnos am bedair wythnos yn ystod y tymor cyn dechrau. Dyma ble mae y proses o drosglwyddo y plant yn dechrau. Mae'r plant yn gallu dod i arfer ar lleoliad ac i adnabod y staff sydd yn y dosbarth. Rhoi y siawns ir rhieni i gyfathrebu a gweithwyr allweddol ac i ofyn cwestiynau priodol sydd yn ei boeni nhw. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd iddyn ni fel staff i ddod i adnabod y teulu ei hunain ac i allu drosglwyddo gwybodaeth bwysig am y plentyn boed yn grefydd, iaith neu yn anabledd. I ddysgu am ei diddordebau i wneud y sesiwn 1 awr pan fydd y plentyn yn ymweld ar ysgol ar ben ei hunain cyn dechrau y tymor wedyn. Mae hyn yn helpu y drosglwyddo i fod yn fwy hwylus.

Yn y sesiynau yma mi fydd y rhiant yn cael pecyn gwybodaeth am yr ysgol sydd yn cynnwys polisïau yr ysgol a gwybodaeth bwysig. Gofynnwyd hefyd i rhieni i lenwi proffil un tudalen (PUT) sydd yn sôn am anghenion personol y plentyn, ei diddordebau a beth sydd yn ei bryderi. Mae hyn yn mynd i hwyluso y drosglwyddo i yr ysgol er mwyn i'r staff galluogi i gynllunio yn gywir i anghenion y

plentyn. Mae y proffil yma yn dangos cryfderau, barn, dymuniad, ac anghenion personol. Defnyddiwyd y proffil i helpu ddealltwriaeth y plentyn ac sut i gefnogi y plentyn yn gywir. (*Cornwall.gov.uk*, 2019).

E.e. Mae gan y plentyn diddordeb enfawr yn ceir. Cynllunio ardal byd bach gyda ceir. I annog y plentyn i allu chwarae yn annibynnol ac yn naturiol.

Fel y dywedai Llywodraeth Cymru (2018) fod dysgu am ei hunain ac wrth ffurfio perthnasoedd newydd gyda phlant ac oedolion. Mae hyn yn rhan allweddol o gyfnod sylfaen, annog y plentyn i ddatblygu hunain hyder ac i godi ymwybyddiaeth hunaniaeth ddiwylliannol mewn sefyllfa sydd yn amlddiwylliannol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2008) y plentyn yw canolbwynt y dysgu ac addysgu. Rôl yr ymarferydd ydy i sicrhau fod anghenion personol y plentyn yn cael ei gynnal yn y meysydd dysgu. Pwysigrwydd fod yr ymarferydd ag gwybodaeth a dealltwriaeth eang iawn o ddatblygiad y plentyn. Mae rhoi anghenion personol y plentyn yn craidd y cynllunio yn bwysig wrth cynllunio ardaloedd a gweithgareddau ffocws. I wneud yn siŵr nad oes unrhyw beth yn rhwystro y plentyn i ddysgu ac i gynyddu yn unigol.

Mae theori ymlyniad Bowlby yn dangos fod y perthynas cyntaf y plentyn yn bwysig ac yn hanfodol. Credai os oes rhwygiad yn y perthynas yma gall achosi difrod i'r plentyn, gall achosi i'r plentyn i droseddi, i gael problemau emosiynol ac ymddygiad anghymdeithasol. Felly fel y gallwn weld os oes rhwygiad yn y perthynas yma gall hyn achosi i y deulu oll i deimlo yn bryderus iawn ac dylai y drosglwyddo yma i ddigwydd yn naturiol wrth deall anghenion y plentyn yn y sefyllfa yma. Mae angen i yr ymarferydd i fod yn sensitif ac yn effeithiol ar yr un pryd. (Vicedo, 2011, tud.401-426)

Anghenion y plentyn

Yn erthygl 19 Comisiynydd plant Cymru (2020) dylai y plentyn derbyn gofal ac i'w gadw yn ddiogel. Dyma ble gwelwyd y pwysigrwydd o gynnwys pob plentyn yn y lleoliad. Mae gan y plant yma yr hawl i deimlo yn ddiogel. Dyma ble maen bwysig i gael perthynas da rhwng y plentyn ar ymarferydd. Dylai y plant deimlo fod y sefydliad yn croesawi pawb yn gyfartal. Erthygl 37 Yr hawl i gael ei drin yn deg a na fydd unrhyw plentyn yn cael ei adael allan oherwydd crefydd, anabledd ayyb.

Yn ôl NSPCC (2017) trafodwyd fod ymennydd y babi yn tyfu dros amser wrth gael profiadau. Cyfeiriwyd hyn fel enghraifft fod yr angen i dŷ i gael seiliau adeilad cyn dechrau adeiladu ac yna ymlaen i adeiladu wal a tho. Felly yr hyn sydd angen ar y babi i gael dechrau da ydy i gael sylfaen da a chryf. Wrth gael rhyngweithiad positif rhwng y plentyn ar gofalwyr maen adeiladu sail da er mwyn cynnal bywyd sydd ag iechydd meddwl a chorfforol da. Defnyddiwyd y term 'serve and return' mae hyn yn golygu fod babi yn dysgu wrth cyswllt llygaid a chyffyrddiad corff. Wrth ail adrodd hyn dro ar ôl dro wrth chwarae gemau a chyfathrebu maen creu rhan allweddol yn yr ymennydd sydd yn rhoi canlyniad positif. Er hyn mae yna hefyd achosion negatif ble mae straen gwenwynig yn digwydd yn bywyd y plentyn sef camdriniaeth neu esgeulustod gall hyn rhwystro ei fframwaith sylfaenol o ddatblygiad yr ymennydd. Dyma ble y gwelwyd y pwysigrwydd o magwraeth yn bywydau y plentyn. Pan mae plentyn yn cael magwraeth da mae hyn yn adeiladu ymennydd cryf sydd yn gallu delio a gwahanol amgylchiadau. Felly wrth drosglwyddo plant yn bositif ac yn effeithiol ni fydd yn effeithio ar ymennydd y plentyn yn y dyfodol. (Keating, 2011)

Fel y pwysleisiau CCUHP Unicef (dim dyddiad) mae gan pob plentyn yr hawl i chwarae. Yn ôl erthygl Doyle Roche (2018, tud

124-140) mae rhai yn meddwl am chwarae mewn ffyrdd gwahanol i sut dylai i blant chwarae. Os fyddai plentyn yn chwarae chwaraeon mae pwyslais enfawr ar y plentyn yma i lwyddo yn uchel ac i ennill i blesio oedolion. Gall droi yn dymuniad yr oedolyn yn hytrach na'r plentyn ble y dylai y plentyn i chwarae oherwydd mwynhad. Dylai fod gan y plentyn yr hawl i chwarae a fod chwarae yn ffordd o ddatblygu wrth gael amser cadarnhaol sydd yn cynnwys amser, gofod, mynediad i ardaloedd chwarae ac rhwydwaith eang o oedolion o'i amgylch. Dylai fod y chwarae yn ymwneud ag diddordebau y plentyn. Pwysleisiau Llywodraeth Cymru (2020) fod yr angen i gynllunio gwersi/chwarae yn rhan hanfodol o'r fframwaith newydd cwricwlwm i Gymru er mwyn gallu cynllunio i anelu at anghenion unigryw y plant. Er mwyn cynllunio yn effeithiol mae yr angen i asesu y plant ac wrth asesu dyma ble y gwelwyd anghenion unigol y plant yn gliriach a beth fydd yn helpu y plentyn yma yn uniongyrchol. Felly mae asesu yn rhan hanfodol a sylfaenol o Gwricwlwm i Gymru ac yn gwraidd i'r broses ddysgu.

Yn ôl DeRobertis (2020) soniai am sut trafodai Piaget am ddatblygiad gwybyddol o'r enw *schemas* sef gweithred sydd yn cael ei ailadrodd ac yn ei weld yn bennaf yn babanod a phlant ifanc. Pan fydd y plant yn datblygu ac yn archwilio y byd o'i chwmpas mae hyn er mwyn ehangu ei dealltwriaeth a gwybodaeth o'r byd. Gall *schema* cael ei ymddangos yn gorfforol, geiriol neu yn rhan o ddarlun. Yn ôl fideo Themantic Education (2018) mae yna gwahanol fathau o *schemas* sydd yn drosglwyddo ac yn dangos gwahanol ystyr. Er mwyn gwerthuso theori *schema* mae angen disgrifio, tystiolaeth, ceisiadau a chyfyngiadau. Mae plant yn hoff o ailadrodd llawer o weithgareddau boed yn taflu gwrthrych, cuddio pethau mewn bagiau neu gwaghau bocs teganau ond mae'r ymddygiad


ailadroddus yma yn rhan o ddatblygiad er mwyn ehangu ei ddealltwriaeth.

A child with a trajectory schema may: • Always seem to be running around • Like throwing things • Like to play with running water • Like pushing things in a straight line • Like climbing and jumping off things	A child with a containment schema may: • Like putting things in bags and pots • Enjoy shape sorting toys • Climb into boxes • Love filling up boxes and bags with sand or water
A child with a connecting schema may: • Tie your chair legs (even your legs) together; • Love joining train carriages together or taking them apart • Enjoy all sorts of construction toys • Once they are drawing, enjoy joining dots or lines together	A child with a transporting schema may: • Put sand in a bucket and move it to another area; • Take things from one place to another in prams, trolleys and bags • Go back and forth bringing you things
This child with an orientation schema may: • Hang upside down from climbing frames • Look at the world from different directions by turning themselves upside down • Turn objects and toys around and look at them	This child with a positioning schema may: • Stack unlikely objects • Line up toys e.g. trains, cars, small world people • Create layers of paint or collage • Balance objects on the edge of tables or furniture • Like working with small objects with

(Source: Children scrapstore blog, dim dyddiad)

Mae y tabl uchod yn dangos y gwahanol *schemas* sydd i'w gael ac wrth iddyn ni arsylwi y plant dyma ble mae y gwybodaeth am yr unigolion yn ehangu yn bellach. Wrth adnabod pa *schema* mi fyddai yn fuddiol fod yr ymarferydd yn cynllunio ardaloedd sydd yn cyd fynd ac yn cyflawni ei anghenion.

Bydd gan yr ymarferydd y cyfrifoldebau o chefnogi anghenion y plant. Wrth ddilyn theori Maslow (1943) maen rhaid fod sylfaen y plant yn gadarn cyn allu gweithio i fyny y tabl. Er mwyn gweithio i fyny y tabl maen rhaid gwneud yn siŵr fod y plentyn yn barod am hyn ac wedi datblygu yr anghenion unigol yma.



(Source: How to think and love selflessly, 2014)

Partneriaeth

Cyfrifoldeb y staff ydy i annog cyfathrebiad positif rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr. Dylai fod staff yn trosglwyddo gwybodaeth yn ddyddiol ar sut mae y plentyn yn setlo yn y dosbarth ac os oes unrhyw bryder i'w drafod naill ai gan y rhiant neu gan y staff.

Wrth gyfathrebu yn effeithiol maen ehangu ar ddealltwriaeth am yr unigolyn ac yn helpu datblygiad positif. I wneud i'r rhiant/gofalwyr i deimlo yn gartrefol ac i dawelu ei feddyliau os yn bryderus. Mae dechrau ysgol yn amser anodd iawn i y plentyn ac yr oedolyn felly mae sgwrs dyddiol yn mynd i helpu i gysuro y teulu. Mae hyn yn adeiladu ffydd a gobaith i y teulu.

E.e. Rhannu gwybodaeth am beth mae y plentyn wedi bod yn ymwneud y bore hwnnw, neu ydy y plentyn wedi yfed llaeth, neu os wnaeth y plentyn fynd i chwarae o gwbl hyd yn oed os yn amser bach.

Mae unrhyw newyddion positif yn mynd i rhoi help i deimladau y teulu ac mae hyn yn annog y rhiant/gofalwyr i allu trafod hyn yn y cartref gyda y plentyn. Fel y dywedai Bennett a Burrige (2018, tud.104-118) os ydy partneriaeth rhwng staff a rhieni/gofalwyr yn gadarn mae hyn yn helpu deallusrwydd am sefyllfa cartref y plentyn, gall creu gwybodaeth eang am grefydd, anabledd a gwahanol diwylliannol. Dylai yr ymarferydd ymdrechi i ddysgu am sefyllfaoedd sydd yn wahanol i yr arfer.

Yn ôl Payler and Georgeson (2013, tud.380-397) nodwyd fod rhannu gwybodaeth gyda amlasiantiaethau yn bwysig er mwyn ehangu datblygiad y plentyn. I gyfuno gwybodaeth a chyfathrebu gyda amlasiantiaethau yn cryfhau y partneriaeth. Dylai fod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol ar ba asiantau mae'r plentyn yn cael ei gyfeirio ato ac yn ymwybodol o beth yw y camau priodol i y plentyn.

Dylai fod yr ymarferydd y dosbarth a dealltwriaeth a gwybodaeth am unigolion y dosbarth. Mae hyn yn galluogi addysgeg da ac i helpu y plentyn i ddatblygu yn ffordd ei hunain wrth sicrhau fod anghenion y plentyn yn cael ei gynnwys yn sail y cynllunio. Soniai Llywodraeth Cymru (2008) fod gan yr ymarferydd y cyfrifoldebau i wneud yn siŵr mae y plentyn ydy canolbwynt y dysgu ac addysgu. Nid yw pob plentyn yn dysgu ar yr un pryd, felly maen bwysig i fod yn bositif ac yn sensitif tuag at y plentyn ac i greu dealltwriaeth.

Ymyriadau

(Source: Amonco, 2017)



Wrth ddilyn theori '*Holistic approach*' Montessori sydd yn ffocysu ar helpu y plentyn i ddatblygu yn ddeallusol, cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol er mwyn byw bywyd llawn. Mae i ddysgu yn holistig yn meddwl i ddysgu mewn lleoliad apelgar a naturiol. Mae'r amgylchedd yn naturiol ac maent yn annog y plant i ddysgu yn greadigol.

Y nod ydy fod y plant ar rhiant yn cael cefnogaeth gan y sefydliad i ddeall beth sydd angen iddynt i wneud i gefnogi ei phlentyn. Mae rôl y rhiant yn bwysig er mwyn galluogi rhoi cymorth un i un i y plentyn yn y cartref. Mewn ardal gyfoethog yn Reggio Emilia yn yr Eidal mae gwybodaeth naturiol yn cynnwys y plant yng nghanol y dysgu ac yn annog y plant i ddysgu dealltwriaeth wrth gweld, clywed ac yna i fynd ymlaen ddysgu. Annog y plant i fynd yn ôl i'r sylfaen unwaith eto ac i gofleidio y natur. Y dull yma yn helpu y plant i ddatblygu sgiliau canolbwytio da yn y gwahanol meysydd dysgu. Mae hyn yn ffordd effeithiol iawn i ddatblygu gwybodaeth y plant ac wedi dangos effaith positif iawn yn y gymuned. Gwelwyd fod angen i bob oedolyn yn yr ysgol sydd yn gweithio gyda'r plentyn yn uniongyrchol i wneud ei orau glas i ddatblygu ei meysydd dysgu ac i rhoi ansawdd uchel iawn o addysg er mwyn

galluogi canlyniad gorau oll i y plant. (The Reggio Emilia approach: An enrichment case study, dim dyddiad).

Os oes angen ymyrraeth ar y plentyn mi fyddai modd i staff yr ysgol i ymwneud a gyrsiau ac i ddatblygu cymwysterau unigol er mwyn helpu dealltwriaeth i helpu y plentyn penodol yma. Nid oes rhaid i hyn fod yn gyrsiau tu allan i yr ysgol gall rhannu gwybodaeth gyda staff dosbarthiadau eraill sydd wedi bod ar y cwrs penodol yma neu wedi cael profiad personol. Gwelwyd pwysigrwydd eto i rhannu gwybodaeth ac i allu cryfhau dealltwriaeth personol er mwyn helpu anghenion unigol y plentyn. (NOS, 2011)

Deilliannau arfaethedig

Mae theori Vygotsky yn annog perthnasoedd positif ac agos rhwng y plentyn ar ymarferydd. Mae cael perthynas agos yn dylanwadi ar ddeallusrwydd y plentyn oherwydd yr hyn y mae yr oedolyn wedi trosglwyddo iddynt yn naturiol. Mae deall fod pob plentyn yn wahanol ac yn datblygu ar ddeilliannau gwahanol ar draws y gwahanol meysydd dysgu. Gwelwyd hyn pan fyddai oedolyn yn chwarae rôl gyda plentyn maent yn gallu trosglwyddo emosiynau ac profiadau da iddynt tra yn chwarae. (Pass, 2007 tud. 277-282)

Mae fframwaith cyfnod sylfaen Cymru yn pwysleisio ar y plentyn ac y plentyn sydd yn dod yn gyntaf. Dylai fod addysg yn cael ei gynllunio o amgylch anghenion dysgu unigol y plentyn. Wrth wneud hyn ac wrth weithio yn bositif ac yn effeithiol gyda y rhieni/gofalwyr gall unigolion cryf iawn cael ei greu. Unigolion iach sydd yn gweld bywyd a dysgu yn yr ysgol yn mwynhad ac dim yn rhywbeth diflas. Annog y plant i fwynhau dod i yr ysgol ac i rhedeg i fewn yn y boreau. Dyma ble gwelwyd os ydy y plentyn mewn lle positif ac hapus fe ddaw y dysgu academiaidd yn naturiol. (Llywodraeth Cymru, 2015)

Maer cwricwlwm newydd i Gymru yn annog dysgu drwy chwarae yn gliriach ac yn fwy effeithiol nag erioed. Mae'r cwricwlwm Donaldson yn cael ei ddisgrifio fel 'Cynnydd ac asesu wrth galon y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm' (Llywodraeth Cymru, 2020). Nodwyd mae y plentyn yw y gwreiddyn y cynllunio ac fod pwyslais ar llais y plentyn yn gryf iawn. I ddysgu yn gryf am hunaniaeth, lles, creadigol ac yn uchelgeisiol wrth gynllunio y meysydd yma yn y dosbarth.

Rhestr Cyfeirnod

Allingham, S. (2012) *Transitions in the Early Years : A Practical Guide to Supporting Children Between Early Years Settings and Into Key Stage One*. London: Practical Pre-School Books.

Amonco (2017) *Maria Montessori's Holistic Approach to Education* [image] Available at: <https://www.amonco.org/maria-montessori-holistic-approach/> (Accessed: 22 Tachwedd 2020).

Bennett, J. a Burrige, P (2018) 'Developing Timorese early years teachers' pedagogy through an Australian mentoring programme', *International journal of early years intervention*, Vol. 26, No. 1, 104–118.

Booker, L (2008) *Supporting transitions in the early years*. England: Open university press.

Children scrapstore blog (dim dyddiad) *Children and Schemas - Understanding Different Play Behaviours* [image] Available at: <http://childrens-scrapstore.blogspot.com/2014/07/parents-4-play-children-and-schemas-by.html> (Accessed:24 Tachwedd 2020).

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *CCUHP*. Available at: <https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/uncrc/> (Accessed: 4 Tachwedd 2020).

Cornwall.gov.uk. (2019) *One page profiles*. Available at: <https://www.cornwall.gov.uk/education-and-learning/schools-and-colleges/special-educational-needs-file/schools/one-page-profiles/> (Accessed: 20 Tachwedd 2020).

DeRobertis, E.M. (2020) 'Piaget and Husserl: Comparisons, contrasts, and challenges for the future research', *Humanistic psychologist*, 16 o Ebrill. Available at: <https://psycnet.apa.org/record/2020-26459-001> (Accessed: 23 Tachwedd 2020).

Doyle Roche, M.M. (2018) 'Children's right to play', *The Journal of Moral Theology*, Vol. 7, No. 1, tud 124-140.

Gloucestershire (2020) *Supporting transition to school following Covid-19*. Available at: <https://www.gloucestershire.gov.uk/education-and-learning/special-educational-needs-and-disability-send/educational-psychology-service-eps/coronavirus-covid-19-support-and-information/supporting-transition-to-school-following-covid-19/> (Accessed: 23 Tachwedd 2020).

Keating, D.P. (2011) *Nature and nurture in early child development*. Cambridge University Press.

Llywodraeth Cymru (2008) *Addysgeg dysgu ac addysgu*. Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau cwricwlwm i Gymru*. Addysg Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015) *Fframwaith y cyfnod sylfaen*. Caerdydd: Cwricwlwm Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) *How is my child doing in the foundation phase*. Chwarae dysgu tyfu.

Neighbor, L.A. (2013) *Patch*. Available at: <https://patch.com/connecticut/darien/we-worry-about-what-a-child-will-become-tomorrow-yet-we-forget-that-he-is-someone-today> (Accessed: 21 Tachwedd 2020).

NSPCC (2017) *How a child's brain develops through early experiences* [video]. Available at: <https://www.youtube.com/watch?v=hMyDFYSkZSU> (Accessed: 22 Tachwedd 2020).

Pass, S (2007) 'When Constructivists Jean Piaget And Lev Vygotsky Were Pedagogical Collaborators: A viewpoint from a study of their communications', *Journal of Constructivist Psychology*, tud, 277–282.

Payler, J. a Georgeson, J. (2013) 'Multiagency working in the early years: confidence, competence and context', *Early years an international research journal*, Vol. 33, No.4, tud. 380-397.

Rowland, A (2014) *Dr Andrew Rowland: Churchill Fellow of the Winston Churchill Memorial Trust*. Available at: <https://drandrewrowland.wordpress.com/2014/04/25/it-is-easier-to-build-strong-children-than-to-repair-broken-men-frederick-douglass-1817-1895/> (Accessed: 21 Tachwedd 2020).

Siencyn, S.W. (2010) *Llyfr cyfnod sylfaen 3-7oed*. Caerfyrddin a Llandysul: J D Lewis.

Study of the mind (2015) *Journal #8: Urie Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*. [image] Available at: <http://psychologydos.weebly.com/psych-journal/journal-8-urie-bronfenbrenners-ecological-systems-theory> (Accessed: 20 Tachwedd 2020).

Sure start (dim dyddiad) My space. *Creating enabling environment for young children*. Oxfordshire.

Themantic education (2018)

https://www.youtube.com/watch?v=37_jM6lIFf8 (Accessed: 23 Tachwedd 2020).

The Reggio Emilia approach: An enrichment case study, (dim dyddiad) *Curriculum Enrichment: The potential for enriching learning and teaching through the Reggio Emilia approach*, Available at:

<https://thereggioapproach.weebly.com/> (Accessed: 23 Tachwedd 2020).

This above all (2014) *How to think and love selflessly* [image] Available at: <https://justsarahg.wordpress.com/2014/02/06/how-to-think-and-love-selflessly-2/> (Accessed: 21 Tachwedd 2020).

UK commission for employment and skills (2011) *NOS Strategy*. Vol.2

UNICEF (dim dyddiad) *A summary of the UN convention on the rights of the child*. Available at: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf (Accessed: 15 Hydref 2020).

Vicedo, M (2011) 'The social nature of the mother's tie to her child: John Bowlby's theory of attachment in post-war America', Vol 44, No.3, tud. 401-426